# Sefydlu gofynion am fesurau arbennig yn y llys

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â phennu a yw amgylchiadau’r achos yn gofyn am wneud trefniadau arbennig i’r unigolyn yn y llys. Lle y nodir amgylchiadau o’r fath, mae’n cynnwys gwneud y trefniadau priodol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. adolygu amgylchiadau'r achos a gofynion yr unigolion am gymorth, a gwerthuso cymhwysedd posibl unigolion am fesurau arbennig wrth fynd i'r llys
2. nodi lle y gellir cyfiawnhau mesurau arbennig, ac archwilio a fyddai'n well gan unigolion fesurau o'r fath gyda nhw
3. esbonio'r mesur(au) arbennig a all fod ar gael, a'u goblygiadau i unigolion
4. esbonio'r manteision, ac unrhyw anfanteision, i unigolion ynghylch y mesura(au) arbennig o ran bodloni eu gofynion
5. esbonio'r mesurau mewn modd ac ar gyflymder sy'n annog dealltwriaeth i unigolion
6. trafod a chytuno gydag unigolion ar eu dealltwriaeth o'r mesurau arbennig a rhoi eglurhad, lle bo angen
7. esbonio'r broses a'r gweithdrefnau ar gyfer sicrhau mesurau arbennig
8. cofnodi'r holl wybodaeth a ddarperir yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad a deddfwriaeth berthnasol
9. darparu gwybodaeth gywir a pherthnasol, gan amlinellu'r amgylchiadau a'r rhesymeg ategol dros ddarparu'r mesur(au) arbennig a nodwyd
10. adolygu'r achos gydag unigolion, gan gadarnhau eu hangen am gymorth, yr hyn sy'n well ganddynt, ac y byddai'n effeithiol darparu'r mesur(au) arbennig perthnasol
11. mynd i'r afael ag ymholiadau perthnasol yn brydlon ac yn gywir
12. cofnodi'r cytundeb y dewch iddo yn gywir, a'r camau gweithredu canlyniadol, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
13. rhoi gwybod i bob parti perthnasol, gan gynnwys unigolion, am y canlyniad yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad
14. esbonio'r rhesymeg i unigolion mewn modd adeiladol a phroffesiynol, pan fydd y cais am fesurau arbennig wedi cael ei wrthod

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. gofynion cyfreithiol, sefydliadol a pholisi sy'n berthnasol i'ch rôl chi, i rôl pobl eraill yn eich sefydliad ac i'r gweithgareddau sy'n cael eu cyflawni
2. y canllawiau, y polisïau a'r gweithdrefnau lleol a chenedlaethol perthnasol sydd ar gael a sut a phryd y dylid troi atynt
3. sut i ddelio â thystion a phobl berthnasol eraill yn foesegol
4. hawliau a rolau unigolion a thystion, a'r gweithdrefnau y byddant yn ymwneud â nhw o fewn y system cyfiawnder troseddol
5. yr ystod o fesurau arbennig sydd ar gael a'u manteision a'u hanfanteision cymharol i unigolion ac i'r broses gyfreithiol
6. ffactorau sy'n effeithio ar gymhwysedd unigolion am fesurau arbennig
7. sut i bennu categori unigolion a sut bydd hyn yn dylanwadu ar eich dull
8. sut i asesu cyflwr corfforol ac emosiynol unigolion er mwyn sefydlu eu hanghenion wrth dystio yn y llys
9. y camau i'w cymryd pan fydd gennych bryderon am briodoldeb unigolion i dystio
10. y gweithdrefnau ar gyfer trefnu mesurau arbennig mewn llysoedd
11. beth i'w wneud pan fydd angen gwneud pethau'n wahanol i arferion arferol
12. sut i gynnal diogelwch a lles unigolion
13. y ffyrdd cywir o roi gwybod i unigolion a phobl berthnasol eraill am eu rolau a'r gweithdrefnau y byddant yn ymwneud â nhw yn y system cyfiawnder troseddol
14. arddulliau a ffurfiau cyfathrebu gwahanol a sut i'w haddasu i fodloni anghenion yr unigolyn
15. sut i fynd i'r afael yn gywir ac yn foesegol ag amharodrwydd unigolion i roi tystiolaeth neu eu hofn gwneud hynny
16. yr asiantaethau a'r trydydd partïon sydd ar gael i ddarparu cymorth a sut i gychwyn eu hymglymiad
17. sut i roi diweddariad i bobl berthnasol eraill a'r wybodaeth y bydd arnynt ei hangen
18. gofynion presennol am ddogfennaeth a sut i lenwi dogfennau'n gywir
19. pa wybodaeth sy'n gyfrinachol a sut i sicrhau ei bod ar gael dim ond i'r rhai sydd ag awdurdod i gael ati
20. sut i gofnodi gwybodaeth yn gywir, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad

Sefydlu gofynion am fesurau arbennig yn y llys

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Justice |
| **Fersiwn rhif** | 2 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 26 Mai 2023 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 26 Mai 2028 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Justice |
| **RCU gwreiddiol** | SFJDE8 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth a Sefydliadau Cysylltiedig |
| **Cyfres/Set** | Atal a mynd i'r afael â cham-drin domestig a thrais rhywiol |
| **Geiriau Allweddol** | amgylchiadau, nodi, trefniadau, asesu anghenion; tyst; cymorth; cyfiawnder troseddol; llys; mesurau arbennig; |